*These notes refer to the Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (c.1)*

# MESUR PLANT A THEULUOEDD (CYMRU) 2010

## EXPLANATORY NOTES

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer y Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Tachwedd 2009 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Chwefror 2010. Maent wedi eu paratoi gan Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y Mesur. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur ac nid ydynt wedi eu hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, pan na fo'n ymddangos bod angen i unrhyw adran, neu ran o adran gael ei hesbonio, ni roddir esboniad.

   Mae pedair rhan i'r Mesur, sef:

   Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chyfranogi

   Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd ar gyfer Plant

   Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

   Rhan 4: Amrywiol a Chyffredinol

   Caiff pob Rhan ei hesbonio yn ei thro isod.

### Rhan 1: Tlodi Plant, Chwarae a Chyfranogi

3. Mae Rhan 1 o'r Mesur yn gwneud darpariaeth yngl#n â chyfrannu at ddileu tlodi plant, yn darparu dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant ac yn gwneud darpariaeth ynghylch trefnu i blant gyfranogi mewn penderfyniadau gan awdurdodau lleol a allai effeithio arnynt hwy.

#### *Rhan 1, Pennod 1: Dileu Tlodi Plant*

#### *Adran 1: Y nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant*

4. Yn yr adran hon gosodir cyfres o nodau eang sy'n debyg, os dilynir hwy, o gyfrannu at ddileu tlodi plant. Mae'r nodau eang hyn yn gymwys at ddibenion unrhyw ddarpariaeth bellach a wneir o dan Ran 1. Mae'r nodau wedi eu pennu ym mharagraffau (a) i (m) o is-adran (2) ac maent yn cynnwys nodau sy'n ymwneud ag incwm teuluol, amddifadedd sylweddol a ffactorau cymdeithasol sy'n berthnasol i achosion tlodi plant. Prif ddiben y rhestr hon o nodau yw gosod y maes y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru (gweler adran 6) ddewis amcanion ohono i'w cynnwys yn eu strategaethau tlodi plant (gweler adran 2).

5. Mae is-adran (8) yn gwneud darpariaeth i'r nodau eang gael eu diwygio drwy orchymyn Gweinidogion Cymru. Mae gorchmynion o dan yr is-adran hon yn ddarostyngedig i

weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddynt gael eu gwneud, sy’n golygu bod yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad cyn iddynt gael eu gwneud (gweler adran 74 (5)).

6. Mae is-adrannau (3) a (4) yn pennu bod y “grwpiau incwm perthnasol” y cyfeirir atynt yn y nodau yn is-adrannau (2)(a) a (b) yn grwpiau incwm a ddiffinnir drwy gyfeirio at incwm aelwyd canolrifol y DU. Y nod eang yn is-adran (2)(a) yw na fydd unrhyw blant yn byw ar aelwydydd lle mae’r incwm yn llai na 60% o incwm aelwyd canolrifol y Deyrnas Unedig. Y nod eang yn is-adran (2)(b) yw na fydd unrhyw blant sy’n byw ar aelwydydd lle mae’r incwm yn llai na 70% o incwm aelwyd canolrifol y DU “wedi’u hamddifadu’n sylweddol”.

7. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddweud sut y penderfynir ar incwm canolrifol ac amddifadedd sylweddol at y dibenion hyn.

8. Mae is-adran (6) yn gwneud darpariaeth os digwydd i'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau Cymreig i lunio strategaeth ddod i rym yn gynharach nag unrhyw reoliadau o dan is-adran (5). Os digwydd hynny, rhaid i'r awdurdodau Cymreig ffurfio barn eu hunain yngl#n â'r hyn a olygir wrth amddifadedd sylweddol a dangosyddion perthynol i incwm canolrifol.

### *Adran 2: Strategaethau i gyfrannu at ddileu tlodi plant*

9. Mae adran 2 yn gosod dyletswydd ar “awdurdodau Cymreig” i baratoi a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Rhaid i’r strategaeth nodi amcanion sydd i'w dewis gan yr awdurdod, sy’n ymwneud â'r nodau eang, yn berthnasol i swyddogaethau'r awdurdod ac yn amcanion y gellir ymgyrraedd atynt drwy arfer y swyddogaethau hynny. Rhaid i'r strategaeth hefyd gynnwys y gweithredoedd sydd i'w cyflawni a'r swyddogaethau sydd i'w harfer gan yr awdurdod at y diben o gyrraedd ei amcanion. Yn achos Gweinidogion Cymru a’r awdurdodau lleol, rhaid iddynt ddewis amcanion sy’n ymwneud â phob un o’r nodau eang.

10. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth lunio eu strategaeth, ddewis amcanion sy'n ymwneud â’u pwerau i ddarparu cyllid i unrhyw berson.

11. Mae is-adran (5) yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu amcanion penodol i awdurdod Cymreig uwchlaw unrhyw amcanion y gallai’r awdurdod Cymreig ddewis iddo ef ei hun.

12. Rhoddir rhestr o'r awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o lunio a chyhoeddi strategaeth yn adran 6.

13. Gwneir darpariaethau yngl#n â llunio a chyhoeddi strategaethau yn Adrannau 3 i 5 o’r Mesur hwn, ac yn adran 26 o Ddeddf Plant 2004 (fel y’i diwygiwyd gan adran 4 o’r Mesur).

### *Adran 3: Strategaethau a lunnir gan Weinidogion Cymru*

14. Mae adran 3 yn nodi darpariaeth ynghylch gwneud, cyhoeddi ac adolygu strategaethau o dan Ran 1 o’r Mesur sy’n cael eu llunio gan Weinidogion Cymru.

15. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu strategaeth gyntaf o dan y Mesur yn 2010; mae’n ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw golwg ar eu strategaeth yn gyson ac yn rhoi p#er iddynt ail-lunio neu ddiwygio eu strategaeth o bryd i'w gilydd.

16. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r Ysgrifennydd Gwladol a’r personau eraill y maent o’r farn eu bod yn briodol cyn gwneud, ail-wneud neu adolygu eu strategaeth (is-adran (2)).

17. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i’r strategaeth (newydd neu ddiwygiedig) gael ei chyhoeddi ac mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw strategaeth

newydd neu ddiwygiedig gael ei gosod gerbron y Cynulliad. Ar ôl diwygio, caiff Gweinidogion Cymru naill ai gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r diwygiadau neu gyhoeddi'r strategaeth gyda'r diwygiadau wedi eu cynnwys ynddi.

18. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi yn 2013, ac ym mhob drydedd flwyddyn wedi hynny, adroddiad a fydd yn cynnwys asesiad i ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcanion, ac os na chyrhaeddwyd unrhyw amcan, y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd yr amcan hwnnw. Rhaid gosod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad.

### *Adran 4: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau lleol (awdurdodau gwasanaethau plant)*

19. Mae adran 4 yn diwygio adran 26 o Ddeddf Plant 2004 ("Deddf 2004") fel bod, yn achos awdurdod lleol, y ddyletswydd i gael strategaeth tlodi plant wedi ei chysylltu â'r ddyletswydd bresennol o dan yr adran honno i baratoi cynllun sy'n dweud, yn fwy cyffredinol, sut y bydd cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae is-adran (1) yn darparu y gellir cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol i gyhoeddi strategaeth drwy gyhoeddi cynllun o dan adran 26 o Ddeddf 2004. Mae'r ddyletswydd bresennol wedi ei diwygio gan is-adran (3) fel bod rhaid i awdurdod lleol gynnwys yn ei gynllun ei strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru o dan is-adran 2(1) o'r Mesur.

20. Yn ogystal â'i strategaeth tlodi plant ei hunan, caiff awdurdod lleol gynnwys hefyd strategaethau tlodi plant awdurdodau Cymreig eraill y gwnaeth drefniant â hwy o dan adran 25 o Ddeddf 2004. Yn hyn o beth, gweler hefyd adran 5(4) a 5(5) sy'n darparu, os yw strategaeth tlodi plant awdurdod Cymreig arall wedi ei hymgorffori yng nghynllun yr awdurdod lleol o dan Ddeddf 2004, fod dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 2 o'r Mesur oherwydd hynny wedi ei chyflawni.

### *Adran 5: Strategaethau a lunnir gan awdurdodau Cymreig eraill*

21. Mae adran 5 yn gwneud darpariaeth yngl#n â'r strategaethau sydd i'w llunio gan awdurdodau Cymreig eraill ac eithrio Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yngl#n â gwneud, cyhoeddi ac adolygu eu strategaethau ac ynghylch ymgynghori am eu strategaethau (is-adran (3)).

22. Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau i hybu cydweithrediad rhwng yr awdurdod a'i "bartneriaid perthnasol", a bennir yn is-adran (4) o'r adran honno.

Mae dau o'r partneriaid hyn hefyd yn awdurdodau Cymreig at ddiben Rhan 1 o'r Mesur, sef bwrdd iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (os yw'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod). Gall yr awdurdodau Cymreig hyn gyflawni eu dyletswydd o dan adran 2 o'r Mesur drwy drefnu i'r strategaeth gael ei chynnwys fel rhan annatod o gynlluniau pob awdurdod lleol y maent yn ymrwymo i drefniadau gyda hwy o dan Ddeddf 2004 yn hytrach na llunio a chyhoeddi cynllun ar wahân o'u heiddo eu hunain (is-adrannau (4) a (5)). Dim ond wrth drefnu i'w strategaeth gael ei hymgorffori ym mhob un o gynlluniau'r awdurdodau lleol o dan sylw y bydd awdurdod Cymreig yn cyflawni ei ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth.

### *Adran 6: Yr awdurdodau Cymreig*

23. Mae adran 6 yn pennu pa awdurdodau Cymreig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 2 o'r Mesur. Mae is-adran (2) yn caniatáu i'r rhestr gael ei diwygio drwy orchymyn Gweinidogion Cymru. Byddai angen i'r cyfryw orchymyn gael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddo gael ei wneud (gweler adran 74(5)), a rhaid ymgynghori ag unrhyw berson y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei ychwanegu cyn iddo gael ei ychwanegu at y rhestr (is-adran (3)).

24. Yn is-adran (4) eglurir mai'r unig gyrff y ceir eu cynnwys ar y rhestr yw personau sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus, ac y mae eu prif swyddogaethau yn ymwneud ag un neu ragor o'r meysydd yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni chynhwysir tribiwnlysoedd sy'n dod o fewn y categori hwn.

25. Yn achos unrhyw berson a ychwanegir at y rhestr ac sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus a rhai o natur breifat, dim ond mewn perthynas â'r rhai o blith ei swyddogaethau sydd o natur gyhoeddus y caniateir iddo gael ei gynnwys yn y rhestr (is-adran (5)).

### *Adran 7: Dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael*

26. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau lleoedd gofal plant yn ddi-dâl ar gyfer plant penodol nad ydynt o oedran ysgol gorfodol. Mae gweithrediad yr adran hon yn dibynnu ar ddarpariaeth bellach sydd i'w gwneud mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru ynghylch—

- y math o ofal plant y mae'n rhaid ei ddarparu,
- y cyfnodau pryd y mae i fod ar gael,
- y disgrifiad o'r plentyn y mae'r gofal i'w roi ar gael ar ei gyfer (gan gynnwys yr oedran y mae'n rhaid iddo fod wedi ei gyrraedd).

27. Yn is-adran (3) diffinnir 'gofal plant' fel naill ai gwarchod plant neu ofal dydd, o fath y mae'n rhaid iddo fod wedi ei gofrestru gan Weinidogion Cymru[1] o dan Ran 2 o'r Mesur hwn, neu ofal o fath sydd wedi ei gymeradwyo'n unol â chynllun credydau treth a wnaed gan Weinidogion Cymru.

### *Adran 8: Gwasanaethau cymorth i rieni: pwerau awdurdod lleol*

28. Mae is-adran (1) yn rhoi p#er i awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau y darperir, neu gymryd rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd. Mae'r gwasanaethau hyn wedi eu diffinio yn is-adran (3) fel hyfforddiant mewn sgiliau rhianta neu unrhyw wasanaeth arall i hybu neu hwyluso rhianta effeithiol. Bydd awdurdodau'n gallu darparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol eu hunain, eu comisiynu oddi wrth eraill neu gydlafurio gydag eraill i'w darparu.

29. Mae is-adran (2) yn mynnu bod rhaid darparu pa bynnag wasanaethau cymorth i rieni a ddarperir gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio'u pwerau o dan is-adran (1) yn ddi-dâl.

### *Adran 9: Gwasanaethau cymorth iechyd: pwerau awdurdod lleol*

30. Mae is-adran (1) yn rhoi i awdurdodau lleol b#er i ddarparu, sicrhau y darperir, neu gymryd rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd. Mae'r gwasanaethau hyn wedi eu diffinio yn is-adran (4) fel gwasanaethau sy'n darparu cymorth mewn perthynas â iechyd plant neu rieni plant. Ond yn achos gwasanaethau i rieni plant, mae'n un o amodau arfer y p#er hwnnw ei bod yn angenrheidiol sicrhau llesiant plant y rhieni hynny. Nid yw gwasanaethau cymorth iechyd o dan yr adran hon yn cynnwys darparu gwasanaethau meddygol, deintyddol, offthalmig, neu fferyllol.

31. Fel yn achos gwasanaethau cymorth i rieni, caiff awdurdodau naill ai ddarparu'r gwasanaethau yn uniongyrchol eu hunain, eu comisiynu oddi wrth eraill neu gydlafurio gydag eraill i'w darparu.

32. Mae is-adran (2) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol, wrth arfer eu pwerau o dan is-adran (1) i ddarparu, sicrhau y darperir, neu gymryd rhan wrth ddarparu gwasanaethau nyrsio, yn cael cydsyniad y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

---

1 Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran cofrestru ac arolygu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd yn cael eu cyflawni gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

33. Mae is-adran (3) yn pennu bod rhaid i wasanaethau cymorth iechyd a gwasanaethau ataliol a ddarperir gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio'u pwerau o dan is-adran (1) gael eu darparu yn ddi-dâl.

### *Adran 10: Rheoliadau am wasanaethau i fynd i'r afael â thlodi plant*

**Mae adran 10 yn gwneud dau brif beth**

34. Yn gyntaf, mae'n rhoi p#er i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i'r gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y darperir, yn ddi-dâl, wasanaethau cymorth i rieni neu wasanaethau cymorth iechyd o'r math a ddisgrifir yn adrannau 8 a 9 yn y drefn honno (paragraffau (a) a (b) o is-adran (1)). Caiff y rheoliadau hynny bennu hefyd—

- y disgrifiad o'r gwasanaeth y mae'n rhaid i'r awdurdod ei ddarparu,
- y disgrifiad o'r plant a'r rhieni y bydd y ddyletswydd yn gymwys iddynt.

35. Yn ail, mae'n rhoi p#er i Weinidogion Cymru gymhwyso'r ddyletswydd i sicrhau y darperir gofal plant o dan adran 7(1) ac unrhyw ddyletswydd mewn rheoliadau o dan yr adran hon i sicrhau y darperir gwasanaethau cymorth i rieni neu wasanaethau cymorth iechyd mewn dim ond un neu ragor o rannau ardal awdurdod lleol (paragraffau (c) a (d) o is-adran (1).

36. Mae is-adran (2) yn darparu pan fo Gweinidogion Cymru yn pennu ei bod yn ofynnol i wasanaethau gael eu darparu drwy gyfeirio at ardal, caniateir i'r ardal gael ei phennu neu i'r ardaloedd gael eu pennu yn y rheoliadau neu gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ei hun bennu un neu ragor o ardaloedd.

### *Rhan 1, Pennod 2: Chwarae a Chymryd Rhan*

### *Adran 11: Dyletswyddau awdurdod lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant*

37. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol wneud asesiad o ddigonolrwydd y cyfleoedd chwarae yn ei ardal yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Cam cychwynnol yw hwn yn y broses o gyflawni'r ddyletswydd a nodir yn is-adran (3).

38. Caiff rheoliadau bennu materion penodol sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth asesu digonolrwydd; erbyn pa ddyddiad y bydd rhaid gwneud asesiad digonolrwydd; amlder yr asesiadau; pa bryd y cyhoeddir yr asesiad; a pha bryd a sut y dylid ei adolygu.

39. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn ei ardal, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol yng ngoleuni ei asesiad. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 17(3) o'r Mesur.

40. Mae is-adran (4) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae yn eu hardal ac yn cadw'r wybodaeth honno'n gyfoes.

41. Mae is-adran (5) yn darparu y dylai awdurdod lleol, wrth sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn ei ardal, ystyried yn benodol anghenion plant sy'n anabl, anghenion plant o wahanol oedrannau, ac unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

42. Mae is-adran (6) yn egluro bod "chwarae" yn cynnwys unrhyw weithgaredd hamdden, a bod y cyfeiriad at "ddigonolrwydd" yn is-adran (1) yn gyfeiriad at nifer ac ansawdd y cyfleoedd chwarae.

### *Adran 12: Plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdod lleol*

43. Mae adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar draws ystod lawn swyddogaethau'r awdurdod sy'n effeithio arnynt. Mae "plant" at y dibenion hyn wedi eu diffinio yn adran 71 yn bersonau sydd o dan 18 oed.

44. Mae is-adran (2) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am eu trefniadau i blant gymryd rhan ac yn cadw'r wybodaeth yn gyfoes.

45. Mae is-adran (3) yn diddymu adran 176 o Ddeddf Addysg 2002 fel y'i diwygiwyd. Yr oedd adran 176 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yng Nghymru i roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru ar ymgynghori â disgyblion yngl#n â phenderfyniadau sy'n effeithio ar y disgyblion. Mae'r ddyletswydd newydd yn gosod dyletswydd i wneud trefniadau sy'n hybu a hwyluso cyfranogiad y plant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt. Mae'r hen ddyletswydd wedi ei goddiweddyd gan y ddyletswydd newydd ac eithrio mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n eiddo i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn hytrach nag i'r awdurdod lleol. Mae'r penderfyniadau hynny bellach yn destun darpariaeth ar wahân yn adran 29B o Ddeddf Addysg 2002 (a fewnosodwyd gan adran 157 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008).

## *Rhan 1, Pennod 3: Arolygu, canllawiau a chyfarwyddiadau*

### *Adran 13: Arolygu*

46. Mae adran 13 yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer arolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r swyddogaethau a roddir gan adrannau 7 i 12 ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. Caiff y rheoliadau ddarparu bod arolygiadau i'w trefnu naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan Estyn (sef yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant o dan arweiniad Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru) neu unrhyw berson arall o dan drefniadau a wneir gyda Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau ddarparu bod adroddiad arolygu yn "freintiedig" at ddibenion y gyfraith ar ddifenwi, oni ellir dangos i'r adroddiad gael ei gyhoeddi gyda malais.

### *Adran 14: Pwerau mynediad*

47. Mae adran 14 yn darparu p#er i fynd i mewn ar unrhyw adeg resymol i unrhyw fangre awdurdod lleol, neu fangre a ddefnyddir mewn cysylltiad darparu gwasanaethau neu gyfleusterau gan berson arall o dan drefniadau gydag awdurdod lleol i gyflawni'r swyddogaethau perthnasol o dan y Rhan hon. Nid yw hyn yn cynnwys p#er i fynd i mewn i fangre sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat.

### *Adran 15: Pwerau arolygu*

48. Mae adran 15 yn nodi'r pwerau arolygu sydd gan bersonau sy'n mynd i mewn i fangre at y diben hwnnw. Mae'r pwerau yn cynnwys y p#er i ymafael mewn dogfennau neu unrhyw bethau eraill sy'n berthnasol i gyflawni'r swyddogaethau dan sylw, ac i'w symud o'r fangre. Mae'n cynnwys hefyd b#er i'w gwneud yn ofynnol i ganiatáu mynediad at gofnodion neu ddogfennau a fydd hwyrach wedi eu cadw ar gyfrifiadur. Mae unrhyw berson sy'n rhwystro arolygydd rhag arfer p#er mynediad neu b#er arolygu, neu'n peidio â chydymffurfio â gofyniad arolygydd, yn cyflawni tramgwydd y gellir ei gosbi ar gollfarniad mewn Llys Ynadon â dirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

### *Adran 16: P#er i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei rhoi*

49. Mae'r adran hon yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru wneud yn ofynnol bod awdurdod lleol neu unrhyw berson yr ymrwymodd yr awdurdod lleol i drefniadau gydag ef wrth arfer y swyddogaethau o dan adrannau 7 i 10, yn darparu iddynt wybodaeth, dogfennau neu gofnodion sy'n berthnasol. Mae'r p#er yn cynnwys unrhyw wybodaeth, dogfennau neu gofnodion sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan adrannau 7 i 12 ac sy'n angenrheidiol ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan y Rhan hon ac mae hefyd yn cwmpasu sefyllfa lle mae person ar wahân i Weinidogion Cymru yn cynnal arolygiadau am fod rheoliadau o dan adran 13(2) yn darparu ar gyfer hynny.

### *Adran 17: Canllawiau*

50. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cymreig roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau pan fo'r canllawiau yn ymwneud ag arfer y swyddogaethau penodol o dan adrannau 1 i 10 neu'n ymwneud yn fwy cyffredinol â chamau i hyrwyddo'r amcanion eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant.

51. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth ar wahân sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan adrannau 11 a 12.

### *Adran 18: Cyfarwyddiadau*

52. Mae adran 18 yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod Cymreig i gymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau o dan adrannau 2, 7, 10, 11 neu 12, os credir bod yr awdurdod Cymreig yn methu, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hynny.

## Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant

### *Adran 19 Ystyr "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant"*

53. Mae adran 19 yn diffinio "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant" at ddiben rheoleiddio'r gweithgareddau hyn o dan Ran 2 o'r Mesur

54. Mae person yn "warchodwr plant" os yw'n gofalu am un neu ragor o blant o dan wyth oed mewn mangre ddomestig er mwyn gwobr.

55. Mae person yn darparu "gofal dydd i blant" os yw'n darparu gofal ar unrhyw adeg i blant o dan wyth oed mewn mangre nad yw'n fangre ddomestig.

56. Mae is-adran (3) yn darparu i Weinidogion Cymru b#er drwy orchymyn i newid yr oedrannau y cyfeirir atynt yn y diffiniadau o "warchodwr plant" a "gofal dydd i blant" ac i bennu amgylchiadau a fydd yn gyfystyr ag eithriadau i'r diffiniadau. Ni fydd person y mae ei weithgaredd yn dod o fewn yr amgylchiadau a bennir drwy orchymyn yn warchodwr plant nac yn ddarparydd gofal dydd (yn ôl y digwydd) ac ni fydd yn ofynnol iddo gofrestru naill ai o dan adran 21 neu adran 23. Mae is-adran (5) yn nodi rhestr nad yw'n un hollgynhwysfawr o'r mathau o faterion y caniateir gwneud eithriadau mewn perthynas â hwy: (a) y categori o berson sy'n darparu'r gwasanaeth gwarchod plant neu'r gofal dydd; (b) y plentyn neu'r plant y darperir ef ar ei gyfer neu ar eu cyfer; (c) natur y gwasanaeth gwarchod plant neu'r gofal dydd; (d) y fangre y darperir ef ynddi; (e) yr adegau pan ddarperir ef; ac (f) y trefniadau y darperir ef oddi tanynt.

57. Y prif ffactor sy'n gwahaniaethu rhwng gwarchod plant a gofal dydd yw a yw plant yn cael gofal ar "fangre ddomestig", a ddiffinnir yn is-adran (6) fel unrhyw fangre sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat.

### *Adran 20 Cofrestr o warchodwyr plant*

58. Mae adran 20 yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cadw cofrestr o'r holl bersonau a gofrestrir yn warchodwyr plant o dan y Rhan hon o'r Mesur.

### *Adran 21 Dyletswydd gwarchodwyr plant i gofrestru*

59. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar warchodwyr plant yng Nghymru i gael eu cofrestru gan Weinidogion Cymru. Rhaid i berson gael ei gofrestru fel gwarchodwr plant gan Weinidogion Cymru cyn gweithredu fel gwarchodwr plant yng Nghymru (is-adran (1)). Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad gorfodi i unrhyw berson y credant ei fod yn gweithredu fel gwarchodwr plant, ac yntau heb ei gofrestru, i wneud hynny, fel cam cychwynnol cyn cymryd mesurau gorfodi pellach os na

chydymffurfir â’r hysbysiad (is-adran 2). Mae hysbysiadau gorfodi yn effeithiol am un flwyddyn o'r dyddiad y’i cyflwynir. Mae gwarchodwr plant anghofrestredig yn cyflawni tramgwydd os cyflwynwyd iddo hysbysiad gorfodi a’i fod wedyn, heb esgus rhesymol, yn gweithredu fel gwarchodwr plant (is-adran (5)). Mae is-adran (6) yn darparu bod person a geir yn euog mewn Llys Ynadon o dramgwydd o dan is-adran (5) yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd).

### *Adran 22* ***Cofrestr o ddarparwyr gofal dydd i blant***

60. Mae adran 22 yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cadw cofrestr o’r holl bersonau a gofrestrwyd i ddarparu gofal dydd i blant o dan y Rhan hon o'r Mesur.

### *Adran 23* ***Dyletswydd darparwyr gofal dydd i gofrestru***

61. Mae adran 23 yn gosod dyletswydd ar unrhyw berson (p’un a yw’n berson naturiol neu’n gorff corfforaethol neu anghorfforedig o bersonau) sy’n darparu gofal dydd i blant yng Nghymru i gael ei gofrestru gan Weinidogion Cymru. Bydd person sy’n gwneud hynny heb gofrestru a heb esgus rhesymol yn cyflawni tramgwydd. Mae is-adran (3) yn darparu bod person a geir yn euog gan Lys Ynadon o dramgwydd o dan is-adran (2) yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd).

### *Adran 24* ***Ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant***

62. Mae adran 24 a rheoliadau sydd i’w gwneud o dan yr adran hon yn nodi’r hyn y mae’n rhaid i berson sy’n dymuno cofrestru fel gwarchodwr plant ei wneud er mwyn gwneud cais dilys am gofrestru. Mae’n gosod dyletswydd hefyd ar Weinidogion Cymru i ganiatáu cais am gofrestru os caiff amodau penodol eu bodloni a dyletswydd i wrthod cais am gofrestru os na fodlonir yr amodau hynny.

63. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid rhoi mewn cais wybodaeth am faterion yn ôl yr hyn sy’n ofynnol gan reoliadau, bod rhaid rhoi gwybodaeth arall y mae angen rhesymol amdani ar Weinidogion Cymru a bod rhaid i ffi a bennir mewn rheoliadau fynd gyda’r cais. O dan is-adran (3) rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu cais onid yw’r ceisydd naill ai wedi ei anghymhwyso o dan adran 38 neu ei fod yn ymddangos bod y gofynion ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant heb eu bodloni neu’n annhebygol o barhau i gael eu bodloni. Mae’r gofynion ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant i’w nodi mewn rheoliadau o dan adran 25. Pan na fo’n ofynnol i Weinidogion Cymru ganiatáu’r cais o dan is-adran (3), rhaid iddynt ei wrthod (is-adran (4)).

### *Adran 25* ***Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant***

64. Mae’r adran hon yn nodi’r mathau o bethau y caiff rheoliadau eu rhagnodi fel gofynion ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant.

### *Adran 26* ***Ceisiadau i gofrestru: gofal dydd i blant***

65. Mae adran 26 a’r rheoliadau sydd i’w gwneud o dan yr adran hon yn nodi beth y mae’n rhaid i berson sy’n dymuno cofrestru fel darparydd gofal dydd i blant ei wneud er mwyn gwneud cais dilys am gofrestru. Mae’n gosod dyletswydd hefyd ar Weinidogion Cymru i ganiatáu cais am gofrestru os caiff amodau penodol eu bodloni a dyletswydd i wrthod cais am gofrestru os na fodlonir yr amodau hynny.

66. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid rhoi mewn cais wybodaeth am faterion yn ôl yr hyn sy’n ofynnol gan reoliadau, bod rhaid rhoi gwybodaeth arall y mae angen rhesymol amdani ar Weinidogion Cymru a bod rhaid i ffi a bennir mewn rheoliadau fynd gyda’r cais. O dan is-adran (3) rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu cais onid yw’r ceisydd naill ai wedi ei anghymhwyso o dan adran 38 neu ei fod yn ymddangos bod y gofynion ar gyfer cofrestru fel darparydd gofal dydd heb eu bodloni neu’n annhebygol o barhau i gael eu bodloni. Mae’r gofynion ar gyfer cofrestru fel darparydd gofal dydd i blant

i'w nodi mewn rheoliadau o dan adran 27. Pan na fo'n orfodol i Weinidogion Cymru ganiatáu'r cais o dan is-adran (3), rhaid iddynt ei wrthod (is-adran (4)).

### *Adran 27 Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru darparwyr gofal dydd i blant*

67. Mae'r adran hon yn nodi'r mathau o bethau y caiff rheoliadau eu rhagnodi'n ofynion ar gyfer cofrestru fel darparydd gofal dydd i blant.

### *Adran 28 Cofnodi ar y gofrestr a thystysgrifau*

68. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, os caniateir cais o dan adran 24(1), gofnodi'r ceisydd ar y gofrestr gwarchodwyr plant a chyflwyno tystysgrif gofrestru i'r ceisydd sy'n datgan bod y ceisydd wedi ei gofrestru.

69. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, os caniateir cais o dan adran 26(1), gofnodi'r ceisydd fel darparydd gofal dydd mewn perthynas â'r fangre o dan sylw a chyflwyno tystysgrif gofrestru i'r ceisydd sy'n datgan bod y ceisydd wedi ei gofrestru.

70. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau pa wybodaeth y mae'n rhaid i dystysgrif gofrestru ei chynnwys.

71. Mae is-adran (4) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn rhoi tystysgrif ddiwygiedig i'r person cofrestredig os digwyddodd newid yn yr amgylchiadau sy'n peri bod angen diwygio'r dystysgrif.

72. Mae is-adran (5) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru, pan fydd unrhyw ffi ragnodedig yn cael ei thalu gan y person cofrestredig, yn darparu copi o'r dystysgrif os cânt eu bodloni bod y dystysgrif wreiddiol wedi ei cholli neu wedi ei difa.

### *Adran 29 Amodau wrth gofrestru*

73. Mae Adran 29 yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru osod amodau ar gofrestriad person sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant, neu ddarparydd gofal dydd. Ceir gosod amodau naill ai wrth gofrestru am y tro cyntaf neu ar unrhyw adeg yn ddiweddarach. Mae gan Weinidogion Cymru, fel yr awdurdod cofrestru, ddisgresiwn i benderfynu pa amodau i'w gosod, ac o dan is-adran (3), cânt amrywio neu ddiddymu unrhyw amod hefyd. Mae is-adran (4) yn darparu bod person cofrestredig yn cyflawni tramgwydd os yw'n methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio ag unrhyw amod. Mae is-adran (5) yn darparu bod person a geir yn euog o dramgwydd o dan is-adran (4) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd).

### *Adran 30 Rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau*

74. Mae adran 30 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn cael gwneud rheoliadau sy'n gosod gofynion ynghylch sut mae personau cofrestredig yn cyflawni'r gweithgaredd a reoleiddir.

75. Caiff rheoliadau osod gofynion sy'n ymwneud (ymhlith pethau eraill) â lles a datblygiad y plant o dan sylw; addasrwydd i ofalu am blant sydd yn yr oedran perthnasol, neu fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r plant o dan sylw; cymwysterau a hyfforddiant; y nifer mwyaf o blant y caniateir gofalu amdanynt a'r nifer o unigolion sy'n ofynnol i gynorthwyo wrth ofalu; cynnal a chadw'r fangre a'r cyfarpar, a diogelwch ac addasrwydd y cyfryw; y gweithdrefnau i drafod cwynion; goruchwylio staff; cadw cofnodion; a darparu gwybodaeth.

76. Caiff rheoliadau hefyd wneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn bodloni ffactorau, safonau neu faterion eraill y gellir eu rhagnodi neu gyfeirio atynt yn y rheoliadau, a chaiff Gweinidogion Cymru gymryd i ystyriaeth unrhyw fethiant gan unrhyw berson, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon o'r Mesur ac mewn unrhyw achos llys, p'un ai'n droseddol neu'n sifil. Mae is-adran (4) yn darparu bod y p#er i wneud

rheoliadau yn cynnwys p#er i wneud toriad o’r rheoliadau yn dramgwydd troseddol y gellir ei gosbi, ar gollfarn ddiannod, â dirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd).

### *Adran 31* ***Diddymu cofrestriad***

77. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddiddymu cofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd os yw’r person hwnnw wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gofrestru o dan adran 38.

78. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru farnu y dylid diddymu cofrestriad person os nad yw’r gofynion ynghylch addasrwydd o dan adran 25 neu adran 27 bellach yn cael eu bodloni, neu os byddant yn peidio â chael eu bodloni, neu os yw'r person wedi peidio â chydymffurfio ag un o amodau ei gofrestriad, neu wedi peidio â thalu ffi ragnodedig.

79. Mae is-adran (3) yn rhwystro diddymu os gosodwyd gofyniad ar y person cofrestredig i wneud unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau at unrhyw wasanaethau, cyfarpar neu fangre, ac nad yw'r person wedi cael cyfle teg i fodloni’r gofyniad am nad yw’r amser a bennwyd gan yr awdurdod cofrestru ar gyfer cydymffurfio â'r gofyniad wedi dod i ben, a phan fo'r unig ddiffyg neu annigonolrwydd i'w briodoli i'r ffaith nad yw'r newidiadau neu ychwanegiadau eto wedi eu cwblhau.

80. Rhaid gwneud unrhyw ddiddymiad o dan yr adran hon mewn ysgrifen (is-adran (4)), ac y mae’n ddarostyngedig i’r gofynion o ran gweithdrefn a bennir yn adran 36.

81. Yn ychwanegol, mae is-adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, ragnodi amgylchiadau eraill pan ganiateir diddymu cofrestriad person.

### *Adran 32* ***Atal cofrestriad***

82. Mae adran 32 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu o dan ba amgylchiadau y caiff cofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd gael ei atal dros dro. Caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer y cyfnod atal hwyaf a chaiff ddarparu hefyd ar gyfer atal ar gais y person cofrestredig.

83. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau gynnwys hawl apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn ataliad, ac eithrio mewn perthynas ag ataliad gwirfoddol ar gais y person cofrestredig (is-adran (4)). Rhaid i berson cofrestredig beidio â gweithredu fel gwarchodwr plant, na darparu gofal bydd yn y fangre y'i cofrestrwyd ar ei chyfer tra bo wedi ei atal. Mae is-adran (7) yn darparu bod person yn euog o dramgwydd os yw'n gweithredu, heb esgus rhesymol, fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd mewn mangre tra bo'i gofrestriad wedi ei atal, ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd).

### *Adran 33* ***Tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol***

84. Mae adran 33 yn darparu bod gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd yn cael tynnu’n wirfoddol ei enw oddi ar y gofrestr berthnasol drwy hysbysu Gweinidogion Cymru.

85. Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â chydsynio â chais am dynnu enw yn wirfoddol os ydynt wedi hysbysu o’u bwriad i ddiddymu cofrestriad y person a’u bod yn dal i fwriadu gwneud hynny (is-adran (3)). Ni chaiff y Gweinidogion gydsynio ychwaith â chais o’r fath os ydynt wedi hysbysu o’u penderfyniad i ddiddymu cofrestriad ac nad yw’r cyfnod amser y caniateir dwyn apêl ynddo wedi dod i ben neu, os yw apêl wedi ei dwyn, nad yw wedi ei phenderfynu (is-adran (4)).

### *Adran 34 Amddiffyn plant mewn argyfwng: diddymu cofrestriad*

86. Mae adran 34 yn darparu ar gyfer gwneud cais gan Weinidogion Cymru i ynad heddwch am orchymyn sy'n diddymu cofrestriad person ar unwaith os yw'n ymddangos bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Ceir gwneud cais o'r fath heb roi rhybudd, a rhaid i unrhyw orchymyn fod mewn ysgrifen. Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o'r gorchymyn i'r person cofrestredig mor fuan ag y bo modd, ynghyd ag unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a wnaed i gefnogi'r cais, a hysbysiad o'r hawl i apelio. Mae is-adran (7) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol o'r gorchymyn.

87. Mae is-adran (8) yn diffinio ystyr "niwed" fel yr ystyr a roddir i "harm" yn Neddf Plant 1989 (p.41) ac yn pennu bod y cwestiwn a yw niwed yn sylweddol i'w benderfynu yn unol ag adran 31(10) o'r Ddeddf honno. Yn Neddf Plant 1989 ystyr "harm" yw camdriniaeth neu amhariad ar iechyd neu ddatblygiad gan gynnwys, er enghraifft, yr amhariad y dioddefir ganddo drwy weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Yn ôl darpariaethau adran 31(10) o Ddeddf 1989, pan fo'r cwestiwn ynghylch a yw niwed y mae plentyn yn dioddef ganddo yn sylweddol yn dibynnu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, rhaid cymharu ei iechyd neu ei ddatblygiad â'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl yn achos plentyn tebyg.

### *Adran 35 Amddiffyn plant mewn argyfwng: newidiadau i amodau*

88. Mae adran 35 yn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio neu ddiddymu amodau presennol, neu ychwanegu amodau newydd at gofrestriad person, a hynny'n weithredol ar unwaith, pan fo ganddynt achos rhesymol dros gredu bod risg o niwed sylweddol i blentyn os na fyddant yn gwneud hynny. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau o'r fath drwy hysbysiad ysgrifenedig sydd i'w gyflwyno i'r person cofrestredig drwy ei draddodi iddo neu drwy ei anfon drwy'r post i gyfeiriad hysbys diwethaf y person hwnnw. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys rhesymau Gweinidogion Cymru dros gredu bod plentyn o dan risg o niwed sylweddol, pennu'r amod sydd wedi ei amrywio, ei dynnu i ffwrdd neu ei osod ac esbonio'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 37.

### *Adran 36 Gweithdrefn ar gyfer cymryd camau penodol*

89. Mae adran 36 yn nodi'r gweithdrefnau i Weinidogion Cymru eu dilyn i hysbysu ymlaen llaw berson cofrestredig neu geisydd am gofrestriad os ydynt yn bwriadu cymryd un o nifer o gamau sy'n effeithio ar gofrestriad. Y camau yw: gwrthod cais am gofrestru; gosod amod newydd ar gofrestriad person; amrywio neu dynnu i ffwrdd unrhyw amod a osodwyd ar gofrestriad person; gwrthod caniatáu cais i amrywio neu dynnu i ffwrdd unrhyw amod o'r fath; diddymu cofrestriad person.

90. Mae is-adran (2) yn darparu nad yw adran 36 yn gymwys i gamau a gymerir mewn ymateb i sefyllfaoedd brys o dan adran 34 (amddiffyn plant mewn argyfwng: diddymu cofrestriad), nac adran 35 (newidiadau i amodau mewn argyfwng).

91. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno hysbysiad o'u bwriad, mae is-adran (5) yn eu hatal rhag cymryd y cam arfaethedig cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad, oni fydd derbynnydd yr hysbysiad yn hysbysu Gweinidogion Cymru ei fod yn dymuno gwrthwynebu bod y cam yn cael ei gymryd. Os bydd y derbynnydd yn rhoi hysbysiad ei fod yn dymuno gwrthwynebu hynny, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i dderbynnydd yr hysbysiad wrthwynebu cyn iddynt gymryd y cam arfaethedig (is-adran (6)). Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu cymryd y cam, rhaid iddynt hysbysu'r derbynnydd o'u penderfyniad (is-adran (8)). Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys p'un a yw'r derbynnydd yn rhoi hysbysiad o ddymuniad i wrthwynebu ai peidio.

### *Adran 37 Apelau*

92. Mae adran 31 yn darparu bod apelau sydd i'w gwneud yn erbyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru i'w gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf[2].

93. Mae is-adran (1) yn caniatáu i geisydd am gofrestriad neu berson cofrestredig (yn ôl fel y digwydd) apelio yn erbyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod cais am gofrestriad, i osod, amrywio neu dynnu i ffwrdd amodau cofrestriad, i wrthod cais am amrywio neu dynnu i ffwrdd amod, neu i ddiddymu cofrestriad.

94. Mae is-adran (2) hefyd yn caniatáu apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf gan geisydd am gofrestriad neu gan berson cofrestredig (yn ôl fel y digwydd) yngl#n â phenderfyniad (nad yw'n un o'r penderfyniadau yn is-adran (1)) y mae Gweinidogion Cymru yn eu pennu mewn rheoliadau. Caniateir i apelau gael eu gwneud hefyd gan berson cofrestredig y gwneir gorchymyn yn ei erbyn o dan adran 34 (Amddiffyn plant mewn argyfwng: diddymu cofrestriad) a pherson cofrestredig y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 35 (Amddiffyn plant mewn argyfwng: newidiadau i amodau).

95. Mae is-adran (3) ac is-adran (4) yn nodi'r camau y caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf eu cymryd ar apêl.

### *Adran 38 Anghymhwyso rhag cofrestru*

96. Mae adran 38 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu o dan ba amgylchiadau y bydd person wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru. Mae is-adran (3) yn nodi'r amrediad o amgylchiadau y ceir eu cynnwys mewn rheoliadau. Nid yw'r rhestr o amgylchiadau yn rhestr hollgynhwysfawr.

97. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau anghymhwyso person rhag cofrestru os yw rhywun sy'n byw gyda'r person hwnnw neu rywun sy'n gweithio ar ei aelwyd wedi ei anghymhwyso.

98. Mae is-adran (5) yn darparu, pan fo person wedi ei anghymhwyso, y caiff wneud cais wedyn i Weinidogion Cymru yn gofyn i'w anghymhwysiad gael ei ollwng. Y gofynion yw bod y person wedi datgelu'r anghymhwysiad i Weinidogion Cymru a bod Gweinidogion Cymru yn cydsynio mewn ysgrifen iddo beidio â chael ei anghymhwyso.

### *Adran 39 Canlyniadau anghymhwyso*

99. Mae adran 39 yn nodi effaith anghymhwyso ar berson. Rhaid i berson a anghymhwyswyd o dan adran 38 beidio â gweithredu fel gwarchodwr plant yng Nghymru na darparu gofal dydd yng Nghymru nac ymwneud yn uniongyrchol â rheoli unrhyw ddarpariaeth yng Nghymru; ni chaiff person cofrestredig, ychwaith, gyflogi person a anghymhwyswyd mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth gofal dydd neu warchod plant.

100. Mae is-adran (3) yn darparu ei bod yn dramgwydd i'r person a anghymhwyswyd fynd yn groes i is-adran (1) neu i gyflogwr fynd yn groes i is-adran (2). Yn y naill achos a'r llall mae'r tramgwydd yn gallu dwyn cosb, yn dilyn collfarn ddiannod, o gyfnod yn y carchar na fydd yn hwy na 51 wythnos neu o ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5000 ar hyn o bryd), neu'r ddau. Pan fo anghymhwysiad y tramgwyddwr yn ganlyniad i'r ffaith ei fod yn rhan o'r un aelwyd â pherson arall sydd wedi ei anghymhwyso neu pan fo'r tramgwydd yn un o gyflogi person a anghymhwyswyd, yna bydd yn amddiffyniad os gall person brofi na wyddai, ac nad oedd ganddo sail resymol dros gredu ei fod yn byw gyda pherson a oedd wedi ei anghymhwyso, neu'n byw ar yr un aelwyd ag ef, neu wedi ei gyflogi.

---

**2** Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi ei rannu'n 5 siambr wahanol. Mae apelau yn erbyn penderfyniadau awdurdod cofrestru o dan y darpariaethau hyn yn apelau i Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

### *Adran 40 **Arolygu***

101. Mae adran 40 yn rhoi i Weinidogion Cymru b#er i ddarparu drwy reoliadau ar gyfer arolygu darparwyr gwarchod plant a gofal dydd yng Nghymru ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. Cynhelir yr arolygiadau gan Weinidogion Cymru neu gan Estyn (sef yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant y mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn ben arni) neu gan unrhyw berson arall o dan drefniadau a wneir gyda Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau ddarparu bod adroddiadau arolygu yn "freintiedig" at ddibenion y gyfraith ar ddifenwi oni ellir dangos bod adroddiad wedi ei gyhoeddi gyda malais.

### *Adran 41 **Pwerau mynediad***

102. Mae adran 41 yn darparu pwerau mynediad i unrhyw berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru i fynd ar unrhyw adeg resymol i mewn i fangre yng Nghymru lle y gwarchodir plant neu y darperir gofal dydd ar unrhyw adeg, Mae is-adran (2) yn darparu i berson awdurdodedig b#er i fynd i mewn i fangre os oes achos rhesymol i gredu bod plentyn yno yn derbyn gofal yn groes i ddarpariaethau Rhan 2 o'r Mesur.

### *Adran 42 **Pwerau arolygu***

103. Mae adran 42 yn nodi'r pwerau arolygu sydd gan bersonau sy'n mynd i mewn i fangre at y diben hwnnw. Mae'r pwerau yn cynnwys y p#er i ymafael mewn dogfennau neu unrhyw bethau eraill a allai fod yn dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â gofynion rheoliadol, ac i'w symud o'r fangre. Mae'n cynnwys hefyd y p#er i wneud yn ofynnol caniatáu mynediad at gofnodion neu ddogfennau a fydd hwyrach wedi eu cadw ar gyfrifiadur. Mae unrhyw berson sy'n rhwystro arolygydd rhag arfer p#er i fynd i mewn i fangre neu b#er arolygu, neu'n peidio â chydymffurfio â gofyniad arolygydd, yn cyflawni tramgwydd ac mae'n agored, o'i gollfarnu mewn Llys Ynadon, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

### *Adran 43 **P#er cwnstabl i gynorthwyo wrth arfer pwerau mynediad***

104. Mae adran 43 yn darparu, pan fo ymdrechion i arfer pwerau arolygu wedi eu llesteirio, y caiff person, a awdurdodir i fynd i mewn i fangre o dan adran 41, wneud cais i lys am warant sy'n awdurdodi cwnstabl i gynorthwyo'r person awdurdodedig i arfer y p#er i fynd i mewn i fangre, gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen. Caiff y cais am warant fod mewn ymateb i berson sy'n atal p#er mynediad neu b#er arolygu arall o dan adran 42 rhag cael ei ddefnyddio.

### *Adran 44 **Cyflenwi gwybodaeth i Weinidogion Cymru***

105. Yn ychwanegol at y p#er i weld dogfennau a deunyddiau eraill wrth arolygu, caiff Gweinidogion Cymru fynnu hefyd bod unrhyw warchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd cofrestredig yn darparu pa wybodaeth bynnag iddynt yngl#n â gweithgareddau'r person hwnnw fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd, a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn angenrheidiol at ddibenion eu swyddogaethau o dan y Rhan hon.

### *Adran 45 **Cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau lleol***

106. Mae adran 45 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am y rhai sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd. Mae hyn yn angenrheidiol i alluogi'r awdurdod lleol i ddarparu gwybodaeth am argaeledd gofal plant i gyflawni ei swyddogaethau o dan a.27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth). Mae rhannu'r wybodaeth a ragnodir yn broses sy'n cael ei hysgogi gan un o'r camau canlynol: caniatáu cofrestriad; dyroddi hysbysiad o fwriad i ganslo cofrestriad; canslo cofrestriad; atal cofrestriad; tynnu enw person oddi ar y gofrestr ar gais y person hwnnw; neu pan fo ynad heddwch yn gwneud gorchymyn o dan adran 34(2). Mae is-

adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth i berson sy'n arfer swyddogaethau statudol (at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny) yngl#n ag a yw person wedi ei gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd.

### *Adran 46* ***Y tramgwydd o wneud datganiad anwir neu gamarweiniol***

107. Bydd person yn euog o dramgwydd o dan is-adran (1) os yw'n gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol gan wybod hynny wrth wneud cais am gofrestriad, a bydd yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol (£5000 ar hyn o bryd).

### *Adran 47* ***Hysbysiadau o gosb***

108. Mae adran 47 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gosod hysbysiad cosb benodedig ar berson cofrestredig os cânt eu bodloni ei fod wedi cyflawni tramgwydd perthnasol. Mae gan Weinidogion Cymru b#er i nodi mewn rheoliadau y tramgwyddau hynny y gellir ymdrin â hwy drwy ddefnyddio hysbysiad cosb benodedig. Mae'r cynnig i osod hysbysiad o gosb yn rhoi cyfle i'r person cofrestredig dalu cosb mewn perthynas â thoriad a ganfyddir a chyflawni drwy hynny bob atebolrwydd troseddol am y toriad o dan sylw. Pan fo hysbysiad wedi ei ddyroddi ond bod y gosb heb ei thalu eto, ni chaniateir cychwyn achos yngl#n â'r tramgwydd y cyfeirir ato yn yr hysbysiad cyn diwedd pa gyfnod bynnag a ragnodir yn yr hysbysiad. Os bydd y person yn talu'r gosb yn unol â'r hysbysiad, ni ellir ei gollfarnu wedyn am y tramgwydd y cyfeirir ato yn yr hysbysiad. Mae'r cosbau yn daladwy i Weinidogion Cymru.

### *Adran 48* ***Hysbysiadau o gosb: darpariaeth atodol***

109. Caiff rheoliadau o dan adran 48 wneud darpariaeth yngl#n â ffurf a chynnwys yr hysbysiadau o gosb, gan gynnwys y symiau ariannol a’r terfynau amser ar gyfer talu, a’r camau sydd i'w cymryd os na thelir y gosb yn unol â'r hysbysiad. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer gwahanol gosbau a fyddai'n daladwy mewn gwahanol achosion, a hefyd ar gyfer amrywio'r swm os telir ef ar wahanol adegau. Ni chaiff y swm a ragnodir i'w dalu o dan hysbysiad o gosb fod yn fwy na hanner y ddirwy fwyaf y byddai'n rhaid ei thalu yn dilyn collfarn.

### *Adran 49* ***Terfyn amser ar gyfer achosion***

110. Mae adran 49 yn pennu’r terfyn amser ar gyfer cychwyn erlyniad, sef un flwyddyn o’r dyddiad y daw tystiolaeth ddigonol i sylw’r erlynydd i warantu dwyn achos. Mae hyn yn ddarostyngedig i’r cyfyngiad cyffredinol na cheir cychwyn erlyniad ar ôl mwy na thair blynedd ar ôl cyflawni’r tramgwydd.

### *Adran 50* ***Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol***

111. Mae adran 50 yn darparu, pan fo tramgwydd wedi ei gyflawni gan gorff corfforaethol, bod swyddogion y corff hwnnw yn agored i'w herlyn ac i'w cosbi yngl#n â hynny, os profir bod tramgwydd wedi ei gyflawni gyda’u cydsyniad neu’u hymoddefiad, neu fod y tramgwydd i’w briodoli i unrhyw esgeulustod ar eu rhan.

### *Adran 51* ***Cymdeithasau anghorfforedig***

112. Mae adran 51 yn darparu, pan fo tramgwydd wedi ei gyflawni gan gymdeithas anghorfforedig, bod rhaid dwyn achos yn enw'r gymdeithas (ac nid yn enw unrhyw un o'i haelodau). Bydd rheolau llys yn gymwys o ran cyflwyno dogfennau i gymdeithas anghorfforedig fel petai’n gorff corfforaethol. Mae’n darparu hefyd, fel yn achos corff corfforaethol, fod swyddog neu aelod o’r gymdeithas yn euog o dramgwydd os cyflawnir tramgwydd gyda chydsyniad neu ymoddefiad y swyddog neu aelod, neu oherwydd unrhyw esgeulustod ar ran swyddog y gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu, a gall y swyddog neu aelod fod yn agored i’w erlyn, yn ogystal â’r

gymdeithas. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth yngl#n â’r amgylchiadau pan gaiff cymdeithas ei chynrychioli mewn achos gan berson a awdurdodir yn briodol. Mae is-adran (4) yn darparu bod dirwy a osodir ar gymdeithas anghorfforedig i'w thalu allan o gronfeydd y gymdeithas.

### *Adran 52* ***Swyddogaethau awdurdodau lleol***

113. Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon wneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn sicrhau y darperir gwybodaeth neu gyngor ynghylch gwarchod plant a gofal dydd, a sicrhau y darperir hyfforddiant yngl#n â darparu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd i blant.

### *Adran 53* ***Ffioedd***

114. Caiff rheoliadau bennu a gwneud darpariaethau yngl#n â thalu ffioedd gan warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd cofrestredig i Weinidogion Cymru, gan gynnwys yr amgylchiadau pan ganiateir hepgor ffioedd o'r fath.

### *Adran 54* ***Cydweithredu rhwng awdurdodau***

115. Mae adran 54 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud am gymorth gan awdurdod lleol er mwyn cyflawni eu swyddogaeth, a bod rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â’r cais hwnnw, os yw’n gydnaws â dyletswyddau statudol a dyletswyddau eraill yr awdurdod ac nad yw'n amharu yn ormodol ar gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

### *Adran 55* ***Hysbysiadau***

116. Mae adran 55 yn gwneud darpariaeth yngl#n â dyroddi hysbysiadau i Weinidogion Cymru gan warchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd o dan adran 33 (Tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol) neu hysbysiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 36 (Gweithdrefnau ar gyfer cymryd camau penodol).

### *Adran 56* ***Marwolaeth person cofrestredig***

117. Mae adran 56 yn darparu p#er i wneud rheoliadau i ymdrin â'r sefyllfa pan fydd farw yr unig berson cofrestredig ar gyfer busnes gofal dydd, fel bod modd rhedeg y busnes gofal dydd am gyfnod penodol. Mae’r adran hefyd yn caniatáu i reoliadau osod gofyniad ar gynrychiolwyr personol gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd i hysbysu Gweinidogion Cymru o’r marwolaeth.

## Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

### *Adran 57* ***Sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd (TICD)***

118. Mae adran 57 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu un neu ragor o dimau integredig cymorth i deuluoedd (TICD) yn eu hardal. Mae'n gosod dyletswyddau hefyd ar y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gweithredu dros yr ardal i weithredu fel partner i gynorthwyo'r awdurdod lleol mewn ffordd weithgar i sefydlu TICD a chynorthwyo awdurdod lleol mewn ffordd weithgar i gyflawni ei ddyletswyddau o ran TICD. Mae'n galluogi dau neu ragor o awdurdodau lleol i gydweithredu i sefydlu un neu ragor o TICDau ar gyfer eu dwy ardal (neu bob un o'u hardaloedd).

### *Adran 58* ***Swyddogaethau timau integredig cymorth i deuluoedd (TICDau)***

119. Mae adran 58 yn pennu'r hyn y mae’n rhaid i TICD ei wneud. Swyddogaeth y TICD yw ymdrin ag achosion teulu pan fo anghenion oedolion mewn perthynas ag alcohol neu gyffuriau, trais domestig, iechyd meddwl neu anabledd dysgu yn gysylltiedig â chanlyniadau andwyol i blant yr oedolion hynny. Bydd y timau yn dod

â phroffesiynolion ynghyd o'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol o dan sylw i fynd i'r afael â materion oedolion a phlant o fewn un corff.

120. O dan is-adran (2) caiff Gweinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sy'n berthnasol i'r mathau o achosion y bydd y timau yn ymdrin â hwy. Mae'r swyddogaethau hyn wedi eu diffinio yn y Mesur fel "swyddogaethau cymorth i deuluoedd" ac mae'r awdurdod lleol i nodi'r swyddogaethau cymorth i deuluoedd sydd yw cyflawni gan TICD. Bydd angen cydsyniad y bwrdd iechyd lleol ar gyfer priodoli'r swyddogaethau hyn. Nid person cyfreithiol ar wahân yw'r TICD. Mae'n gyfrwng a sefydlir gan yr awdurdod lleol gyda chyfranogaeth y bwrdd iechyd lleol y bydd pob un o'r cyrff hynny'n cyflawni swyddogaethau penodol drwyddo mewn modd cydweithredol.

121. Mae is-adran (5) yn egluro y daw atgyfeiriadau at TICD o'r awdurdod lleol.

122. Yn is-adrannau (6) a (7) pennir y mathau o achosion y caniateir eu hatgyfeirio i TICD. Y rhain yw teuluoedd lle mae "rhiant" (fel y'i diffinnir) yn wynebu un o nifer o anawsterau penodedig, a phlentyn y rhiant hwnnw naill ai'n "blentyn mewn angen" fel y'i diffinnir neu'n "blentyn sy'n derbyn gofal" (fel y'i diffinnir). Mae'r darpariaethau yn cynnwys rhiant plentyn nad yw eto wedi ei eni, ac yn caniatáu atgyfeirio at unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r plentyn.

123. Mae is-adran (8) yn gosod dyletswydd benodol ar dîm i werthuso a chofnodi effeithiolrwydd ei waith. Mae is-adran (10) yn pennu bod yr atebolrwydd am gyflawni swyddogaethau awdurdod lleol a chyflawni swyddogaethau byrddau iechyd lleol yn aros gyda'r cyrff hynny yn y drefn honno. Mae is-adran (11) yn gwneud yn eglur nad yw unrhyw swyddogaethau a bennir i'r tîm yn cael eu trosglwyddo iddo yn gyfan gwbl, ond yn hytrach yn parhau i gael eu harfer gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol mewn perthynas â'r rheini na chânt, neu na ellir, eu hatgyfeirio i TICD.

### *Adran 59* ***Adnoddau ar gyfer timau integredig cymorth i deuluoedd***

124. Mae adran 59 yn galluogi awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol i wneud trefniadau i dalu am y gwariant a achosir wrth sefydlu a rhedeg TICD naill ai drwy wneud taliadau uniongyrchol neu dalu i gronfa a sefydlir ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae is-adran (2) yn caniatáu i reoliadau ddarparu ar gyfer gwahanol agweddau ymarferol ar gyllido TICDau. Mae is-adran (3) yn ymwneud ag adnoddau ac eithrio arian, er enghraifft cyfuno staff, a mangreoedd.

### *Adran 60* ***Cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd***

125. Mae adran 60 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau bod TICDau yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol perthnasol a ragnodir mewn rheoliadau. Bydd modd felly penderfynu drwy reoliadau gyfansoddiad proffesiynol y timau. Mae is-adran (2) yn rhoi p#er i awdurdod lleol gynnwys personau eraill (yn ychwanegol at y rhai a ragnodir) yn y TICD, gyda chydsyniad y Bwrdd iechyd Lleol.

### *Adran 61* ***Sefydlu byrddau integredig cymorth i deuluoedd***

126. Mae adran 61 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i sefydlu Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gyfer ei ardal. Mae adran 58(4) yn ei gwneud yn ofynnol i TICD gyflawni ei swyddogaethau o dan gyfarwyddyd ei fwrdd. Rhaid i'r bwrdd gynnwys:

- cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol;
- cyfarwyddwr arweiniol statudol y gwasanaethau plant a phobl ifanc (o dan a.27 o Ddeddf Plant 2004 (p 21)) os nad ef yw'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol;
- y swyddog arweiniol dros wasanaethau plant a phobl ifanc o'r Bwrdd Iechyd Lleol.

127. Mae'r darpariaethau yn galluogi awdurdodau lleol i gyfethol aelodau eraill i'r Bwrdd gyda chydsyniad y Bwrdd Iechyd Lleol ac i dalu taliadau a lwfansau i aelodau cyfetholedig a benodir o dan is-adran (5).

### *Adran 62* ***Swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd***

128. Mae adran 62 yn rhestru swyddogaethau bwrdd ICD ar ffurf amcanion. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy eu pwerau i wneud rheoliadau, i bennu swyddogaethau a fyddai'n dweud sut y mae'n rhaid i fwrdd ICD fodloni'r amcanion. Yn y rhestr o amcanion y byrddau, mae is-adran 1(b) yn cynnwys yr amcan bod yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn hybu arferion da, p'un ai drwy ddarparu hyfforddiant neu drwy ddull arall, o fewn eu hardaloedd, sy'n estyn ymhellach na'r TICD ei hun.

### *Adran 63* ***Rheoliadau ynghylch timau a byrddau integredig cymorth i deuluoedd***

129. Mae adran 63 yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwahanol agweddau ar y TICDau ac ar weithrediad y bwrdd ICD.

### *Adran 64* ***Adroddiadau blynyddol ar dimau integredig cymorth i deuluoedd***

130. Mae adran 64 yn gosod dyletswydd ar TICDau i ddarparu adroddiad blynyddol ar eu heffeithiolrwydd. Rhaid rhoi'r adroddiad ar gael yn lleol i'r awdurdod lleol, i'r bwrdd iechyd lleol a hefyd i Weinidogion Cymru.

### *Adran 65* ***Canllawiau ynghylch timau integredig cymorth i deuluoedd***

131. Mae adran 65 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol, y TICD a'r Bwrdd ICD roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau / swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Mesur.

## **Rhan 4 – Amrywiol a chyffredinol**

### *Adran 66* ***Swyddogion safonau gwaith cymdeithasol teuluol***

132. Mae adran 66 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal awdurdod lleol i benodi swyddog dynodedig (swyddog safonau gwaith cymdeithasol teuluol) a fydd â chyfrifoldeb penodol am godi safonau mewn arferion gwaith cymdeithasol a hyrwyddo'r defnydd o ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â plant a phersonau sy'n gofalu amdanynt. Mae cylch gwaith y swyddog safonau gwaith cymdeithasol teuluol yn ymestyn i'r holl arferion gwaith cymdeithasol sy'n berthnasol i blant.

### *Adran 67* ***Anghenion plant sy'n codi o anghenion gofal cymunedol eu rhieni***

133. Mae adran 67 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth asesu anghenion oedolion am wasanaethau gofal cymunedol, i ystyried hefyd anghenion unrhyw blant y mae'r oedolion hynny yn gyfrifol am ofalu amdanynt, ac ystyried a yw effaith anghenion yr oedolion ar eu gallu i rianta yn golygu bod plentyn, yn ei dro , yn "blentyn mewn angen" yn nhermau adran 17 o Ddeddf Plant 1989.

134. Ar ôl ystyried a yw'n ymddangos ai peidio bod plentyn yn blentyn mewn angen, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylid gwneud y plentyn yn destun asesiad o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ac wedyn a ddylid darparu unrhyw wasanaethau ai peidio.

135. Mae is-adran 4 wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gymryd cyfrif o'r ystyriaeth sydd wedi ei rhoi i anghenion y plentyn wrth benderfynu beth yw anghenion y rhiant o dan adran 47(1)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990.

### *Adran 68 Anghenion plant sy'n codi o anghenion gofal iechyd rhieni*

136. Mae'r adran hon yn ategu'r ddarpariaeth yn adran 67 drwy osod dyletswydd ar gyrff GIG, pan ddarperir gwasanaethau iechyd penodol, i wneud trefniadau addas ar gyfer ystyried a yw anghenion iechyd rhiant yn peri bod unrhyw blant y mae'r oedolyn yn gofalu amdanynt yn gymwys i gael gwasanaethau gan awdurdod lleol o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 neu ddarpariaeth arall. Rhaid i'r corff iechyd hefyd wneud trefniadau addas ar gyfer atgyfeirio achosion priodol at yr awdurdod lleol perthnasol, ond mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd i'r plentyn neu i'r gofalwr yngl#n â datgelu gwybodaeth, boed ddyletswydd cyfrinachedd o dan gyfraith gwlad neu ddyletswydd i'r sawl sy'n destun yr wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

### *Adran 69 Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol*

137. Mae adran 69, yn darparu ar gyfer newid canlyniadol yn Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, drwy ehangu ystyr "swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol" ("social services functions") i gynnwys TICDau a Byrddau ICD, swyddogion safonau gwaith cymdeithasol teuluol (a. 66) ac ystyried anghenion plant wrth asesu rhieni (a. 67).

### *Adran 70 Canllawiau*

138. Mae adran 70 yn gwneud darpariaethau yngl#n ag unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru i gyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau o'r fath.

### *Adran 71 Dehongli'n gyffredinol*

139. Mae adran 71 yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Mesur.

### *Adran 72 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol*

140. Nodir mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn Atodlen 1.

### *Adran 73 Diddymiadau*

141. Nodir y diddymiadau yn Atodlen 2.

### *Adran 74 Gorchmynion a Rheoliadau*

142. Mae unrhyw b#er sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol. Mae is-adrannau (2) i (5) yn pennu'r trefniadau mewn perthynas â gorchmynion a rheoliadau. Ceir arfer y p#er i wneud rheoliadau gan ddarparu'n wahanol ar gyfer gwahanol achosion neu ardaloedd neu ddibenion, a chan wneud darpariaeth gyffredinol neu ddarpariaeth ar gyfer achos penodol neu ddosbarth penodol o achosion.

### *Adran 75 Cychwyn*

143. Mae adran 75 yn pennu'r trefniadau ar gyfer cychwyn y Mesur o ran yr adrannau 1, 2, 3, 74, 75 a 76. Daw gweddill y darpariaethau sydd yn y mesur i gyd i rym pan gychwynnir hwy drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

### *Adran 76 Enw byr*

144. Enw byr y Mesur yw 'Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010'.

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau a'r cyfeiriadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Mesur hwn drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

| | |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 2 Mawrth 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried y mesur arfaethedig | 11 Mawrth 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth | 25 Mawrth 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth | 11 Ebrill 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth | 30 Ebrill 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth | 7 Mai 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth | 11 Mai 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth | 14 Mai 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth | 21 Mai 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried tystiolaeth | 4 Mehefin 2009 |
| Cyfnod 1 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried y materion sy’n weddill a’r adroddiad | 11 Mehefin 2009 |
| Cyfnod 1 – Dadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch yr egwyddorion cyffredinol | 30 Mehefin 2009 |
| Cyfnod 2 – Y Pwyllgor Craffu yn ystyried y diwygiadau | 1 Hydref 2009 |
| Cyfnod 3 – Y Cyfarfod Llawn yn ystyried y diwygiadau | 10 Tachwedd 2009 |
| Cyfnod 4 – Dadl i basio Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn y Cyfarfod Llawn | 10 Tachwedd 2009 |
| Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol | 10 Chwefror 2010 |